OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 331 (Cy. 66)

2025 No. 331 (W. 66)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025

The Welsh Elections Information Platform Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, fel sy'n ofynnol gan adran 26 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5) ("Deddf 2024"). Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer sefydlu'r platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig a fydd yn darparu gwybodaeth gyfredol, neu fynediad at wybodaeth gyfredol o ffynonellau electronig eraill, i etholwyr er mwyn eu cefnogi i gymryd rhan yn yr etholiadau a bennir yn rheoliad 1, sef etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ("BRhE"), a sefydlwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o dan adran 20E o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (dccc 4) (fel y'i diwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf 2024), yn weithredwr y platfform.

Mae rheoliad 4 yn rhoi swyddogaethau sefydlu a gweithredu'r platfform i weithredwr y platfform ac yn nodi'r hyn y mae rhaid i'r gweithredwr ei wneud wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae rheoliad 5 yn gosod dyletswydd ar y BRhE i ddarparu canllawiau ynghylch gweithredu'r platfform.

Mae rheoliad 6 yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei rhoi ar y platfform, gan gynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll mewn etholiad, a gwybodaeth y mae'n ddyletswydd ar swyddogion canlyniadau ei chyhoeddi yn ystod y broses etholiadol. Mae'r rheoliad hefyd yn rhoi disgresiwn i weithredwr y platfform gyhoeddi gwybodaeth arall i gynorthwyo etholwyr.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision for a Welsh elections information platform, as required by section 26 of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (asc 5) ("the 2024 Act"). The Regulations provide for the establishment of the Welsh elections information platform that will provide up-to-date information, or access to up-to-date information from other electronic sources, to electors to support their participation in the elections specified in regulation 1, namely Senedd Cymru elections and ordinary elections to principal councils in Wales.

Regulation 3 specifies the Electoral Management Board ("EMB"), established by the Democracy and Boundary Commission Cymru, under section 20E of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 (anaw 4) (as amended by section 1 of the 2024 Act), as the platform operator.

Regulation 4 confers the functions of establishing and operating the platform on the platform operator and sets out what the operator must do when carrying out those functions. Regulation 5 places a duty on the EMB to provide guidance about the operation of the platform.

Regulation 6 sets out the information that must be placed on the platform, including particular information relating to candidates and registered political parties standing at an election, and information that returning officers are duty bound to publish during the election process. The regulation also provides the platform operator with discretion to publish other information to assist electors.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y platfform gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir ar y platfform yn hygyrch i etholwyr.

Regulation 7 requires the platform operator to take reasonable steps to ensure that the information published on the platform is accessible to electors.

Mae rheoliadau 8 a 9 yn darparu, ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, y caiff ymgeiswyr unigol, plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth, neu asiantiaid etholiad ddarparu anerchiad etholiadol i weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform. Mae'r darpariaethau'n ymdrin â'r modd y mae anerchiadau etholiadol i'w cyflwyno ac yn nodi deunydd na chaniateir ei gynnwys ynddynt.

Regulations 8 and 9 provide that, for Senedd Cymru elections, individual candidates, a registered political party which has submitted a list of candidates for a constituency, or election agents may provide an election address to the platform operator for publication on the platform. The provisions deal with how election addresses are to be submitted and set out material that they must not contain.

Ar gyfer etholiadau cyffredin prif gynghorau yng Nghymru, mae rheoliadau 10 i 12 yn nodi y caiff ymgeiswyr, neu asiant etholiad yr ymgeisydd, ddarparu datganiad ymgeisydd i weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform. Mae'r darpariaethau'n rhagnodi fformat a chynnwys y ddogfen.

For ordinary elections of principal councils in Wales, regulations 10 to 12 state that candidates, or the candidate's election agent, may provide a candidate statement to the platform operator for publication on the platform. The provisions prescribe the format and content of the document.

Hysbysir ymgeiswyr am y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd gan weithredwr y platfform drwy hysbysiad o'r broses gyflwyno fel yr amlinellir yn rheoliad 13.

Candidates will be notified of the deadline for the submission of an election address or candidate statement by the platform operator through a notice of submission process as outlined in regulation 13.

Mae rheoliad 14 yn darparu bod rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi ar y platfform anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 15 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y platfform sicrhau ei fod yn gwneud trefniadau i alluogi cyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd yn electronig neu ar ffurf copi caled.

Regulation 14 provides that the platform operator must publish on the platform an election address or candidate statement that complies with the requirements in these Regulations. Regulation 15 requires the platform operator to ensure that it makes arrangements to enable an election address or candidate statement to be submitted electronically or in hardcopy.

Mae rheoliad 16 yn darparu na chaiff neb ond ymgeiswyr a'r asiant etholiad ar gyfer yr ymgeisydd neu ar gyfer y blaid wleidyddol gofrestredig, sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth, fynd i unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol am gyhoeddi cynnwys anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd ar y platfform.

Regulation 16 makes provision that only candidates and the election agent for the candidate or for the registered political party, which has submitted a list of candidates for a constituency, and no other person, may incur any civil or criminal liability for the publication of the content of an election address or candidate statement on the platform.

Mae rheoliadau 17 i 19 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru adroddiadau ar gyfer pob etholiad penodedig ynghylch sut y mae'r platfform wedi ei sefydlu a'i weithredu. Rhaid i weithredwr y platfform roi cymorth a gwybodaeth i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â llunio adroddiad.

Regulations 17 to 19 make provision requiring the Welsh Ministers to publish and lay before Senedd Cymru reports for each specified election about how the platform has been established and operated. The platform operator must provide Welsh Ministers with assistance and information in connection with the preparation of a report.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 331 (Cy. 66)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025

Gwnaed *12 Mawrth 2025*

Yn dod i rym *14 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 26(1), (2), (3)(a), (4) a (5), ac 71(1) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 26(7) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mawrth 2025.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i etholiadau penodedig.

(4) Ond nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag—

(a) etholiad i Senedd Cymru, y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar neu cyn 6 Ebrill 2026;

(b) etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru, y cynhelir y polau ar eu cyfer ar neu cyn 5 Mai 2027.

(**1**) 2024 dsc 5. Mae adran 26(9) yn diffinio "penodedig" ac "a bennir" i olygu wedi ei bennu mewn rheoliadau o dan is-adran (1).

2025 No. 331 (W. 66)

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Welsh Elections Information Platform Regulations 2025

Made *12 March 2025*

Coming into force *14 March 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 26(1), (2), (3)(a), (4), and (5), and 71(1) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024(**1**), make the following Regulations.

In accordance with section 26(7) of that Act, a draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

PART 1

GENERAL

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Welsh Elections Information Platform Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 14 March 2025.

(3) These Regulations apply to specified elections.

(4) But these Regulations do not have effect in relation to—

(a) an election to Senedd Cymru, the poll for which is held on or before 6 April 2026;

(b) ordinary elections to principal councils in Wales, the polls for which are held on or before 5 May 2027.

(**1**) 2024 asc 5. Section 26(9) defines "specified" to mean specified in regulations under subsection (1).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "anerchiad etholiadol" ("*election address*") yw cyfathrebiad post a gymeradwywyd yn derfynol y caniateir ei anfon, yn rhinwedd gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**1**), yn rhydd rhag unrhyw dâl am bostio ac sydd i'w gyflwyno neu a gyflwynwyd i'w gyhoeddi ar y platfform;

ystyr "datganiad ymgeisydd" ("*candidate statement*") yw datganiad sydd wedi ei lunio i'w gyhoeddi ar y platfform ac sy'n cefnogi ymgeisyddiaeth, ar gyfer etholiad cyffredin i brif gyngor yng Nghymru, y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddo;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

ystyr "dyddiad cyflwyno" ("*submission date*") yw'r dyddiad y mae'n ofynnol gan reoliad 13(3)(a) ei gynnwys mewn hysbysiad o'r broses gyflwyno ar gyfer anerchiadau etholiadol a datganiadau ymgeiswyr;

ystyr "etholiadau penodedig" ("*specified elections*") yw—

(a) etholiadau i Senedd Cymru;

(b) etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru;

ystyr "gofynion perthnasol" ("*relevant requirements*") yw—

(a) mewn perthynas ag anerchiad etholiadol, y gofynion a osodir gan reoliadau 8(2) a 9;

(b) mewn perthynas â datganiad ymgeisydd, y gofynion a osodir gan reoliadau 11 a 12;

ystyr "gweithredwr y platfform" ("*the platform operator*") yw'r person a bennir yn rheoliad 3;

ystyr "plaid wleidyddol gofrestredig" ("*registered political party*") yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**);

(**1**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y gorchymyn perthnasol a wnaed o dan adran 13 yw O.S. 2007/236 ac mae erthygl 65 ohono yn darparu ar gyfer hawl i anfon cyfathrebiad post yn rhydd rhag unrhyw dâl am bostio.

(**2**) 2006 p. 32. Gwneir diwygiadau perthnasol gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), paragraff 2(1), (15), (16), (17) a (19) o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac adran 8 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**3**) 2000 p. 41.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the Government of Wales Act 2006(**1**);

"the 2021 Rules" ("*Rheolau 2021*") means the Local Elections (Principal Areas) (Wales) Rules 2021(**2**);

"candidate" ("*ymgeisydd*") means (as the context requires)—

(a) an individual who is a candidate to be a Member of the Senedd;

(b) a candidate on a list of candidates to be Members of the Senedd submitted by a registered political party under section 7 of the 2006 Act;

(c) a candidate at an ordinary election to a principal council in Wales;

"candidate statement" ("*datganiad ymgeisydd*") means a statement that has been prepared for publication on the platform and which is in support of candidacy, for an ordinary election to a principal council in Wales, at which the candidate is standing;

"election address" ("*anerchiad etholiadol*") means a final approved postal communication which, by virtue of an order under section 13 of the 2006 Act(**3**), may be sent free of any charge for postage and which is to be or has been submitted for publication on the platform;

"the platform" ("*y platfform*") means the electronic facility, known as the Welsh elections information platform, established by these Regulations and which is to provide electors with up-to-date information, or access to up-to-date information from other electronic sources, about specified elections;

"the platform operator" ("*gweithredwr y platfform*") means the person specified in regulation 3;

(**1**) 2006 c. 32. Relevant amendments are made by the Wales Act 2017 (c. 4), section 5(1), the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1), Schedule 1, paragraph 2(1), (15), (16), (17) and (19) and the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4), section 8.

(**2**) S.I. 2021/1459 (W. 374). Relevant amendments are made by S.I. 2023/1064 (W. 180) rules 4 and 8.

(**3**) At the time that these Regulations were made, the relevant order made under section 13 is S.I. 2007/236 and article 65 of it provides for a right to send a postal communication free of any charge for postage.

ystyr "y platfform" ("*the platform*") yw'r cyfleuster electronig, a elwir yn blatfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, a sefydlwyd gan y Rheoliadau hyn ac sydd i ddarparu gwybodaeth gyfredol i etholwyr, neu fynediad at wybodaeth gyfredol o ffynonellau electronig eraill, am etholiadau penodedig;

ystyr "Rheolau 2021" ("*the 2021 Rules*") yw Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021(**1**);

ystyr "ymgeisydd" ("*candidate*") yw (yn ôl gofynion y cyd-destun)—

(a) unigolyn sy'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd;

(b) ymgeisydd ar restr o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig o dan adran 7 o Ddeddf 2006;

(c) ymgeisydd mewn etholiad cyffredin i brif gyngor yng Nghymru.

"registered political party" ("*plaid wleidyddol gofrestredig*") means a party registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**1**);

"relevant requirements" ("*gofynion perthnasol*") means—

(a) in relation to an election address, the requirements imposed by regulations 8(2) and 9;

(b) in relation to a candidate statement, the requirements imposed by regulations 11 and 12;

"specified elections" ("*etholiadau penodedig*") means—

(a) elections to Senedd Cymru;

(b) ordinary elections to principal councils in Wales;

"submission date" ("*dyddiad cyflwyno*") means the date required by regulation 13(3)(a) to be included in a notice of the submission process for election addresses and candidate statements.

RHAN 2

SEFYDLU A GWEITHREDU'R PLATFFORM

Gweithredwr y platfform

3. Mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a sefydlwyd o dan adran 20E o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) wedi ei bennu'n weithredwr y platfform.

Swyddogaethau gweithredwr y platfform

4.—(1) Rhaid i weithredwr y platfform sefydlu a gweithredu'r platfform yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan baragraff (1), rhaid i weithredwr y platfform—

(a) gwneud trefniadau i benodi trydydd parti i greu ac adeiladu cyfleuster electronig (megis system ar-lein);

(**1**) O.S. 2021/1459 (Cy. 374). Gwneir diwygiadau perthnasol gan reolau 4 ac 8 o O.S. 2023/1064 (Cy. 180).

(**2**) 2013 dccc 4. Mewnosodwyd adran 20E gan adran 1(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Newidiwyd enw byr Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 i'r enw hwnnw o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gan adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

PART 2

ESTABLISHMENT AND OPERATION OF THE PLATFORM

The Platform operator

3. The Electoral Management Board established under section 20E of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013(**2**) is specified as the platform operator.

Functions of the platform operator

4.—(1) The platform operator must establish and operate the platform in accordance with these Regulations.

(2) In carrying out its functions under paragraph (1), the platform operator must—

(a) make arrangements to appoint a third party to create and build an electronic facility (such as an online system);

(**1**) 2000 c. 41.

(**2**) 2013 anaw 4. Section 20E was inserted by section 1(2) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024. The short title of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 was changed to that title from the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 by section 11 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4).

(b) sicrhau bod y platfform yn darparu, yn lletya ac yn cyhoeddi gwybodaeth mewn modd gwleidyddol niwtral am—

(i) etholiadau penodedig,

(ii) ymgeiswyr, a

(iii) pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll mewn etholiadau i Senedd Cymru;

(c) cynnal y platfform drwy gadw'r wybodaeth gyhoeddedig yn gyfredol;

(d) sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu cyfleusterau electronig a chynnwys y platfform rhag mynediad, ymyrraeth neu ddefnydd anawdurdodedig;

(e) darparu system i wirio bod anerchiadau etholiadol a datganiadau ymgeiswyr, a gyflwynir i'r platfform i'w cyhoeddi, yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar y platfform.

Canllawiau

5.—(1) Rhaid i weithredwr y platfform ddarparu canllawiau ynghylch gweithredu'r platfform.

(2) Rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

(a) y gwasanaeth a ddarperir gan y platfform a'r mecanweithiau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw;

(b) y dogfennau y caiff gweinyddwyr etholiadol eu hanfon at weithredwr y platfform i'w cyhoeddi ar y platfform;

(c) fformat gofynnol unrhyw ddogfennau a gyflwynir i weithredwr y platfform;

(d) y modd y caiff gweinyddwyr etholiadol gyhoeddi gwybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 6, a fyddai'n cynorthwyo gweithredwr y platfform i gael yr wybodaeth honno a'i chyhoeddi ar y platfform;

(e) sut y caniateir llunio anerchiadau etholiadol a datganiadau ymgeiswyr a'u hanfon at weithredwr y platfform.

(3) Caiff y canllawiau gynnwys unrhyw fater arall a fydd yn cynorthwyo gweithredwr y platfform i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â gweithredu'r platfform.

(4) Rhaid i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ar y platfform gan weithredwr y platfform.

(b) ensure the platform provides, hosts and publishes information in a politically neutral manner about—

(i) specified elections,

(ii) candidates, and

(iii) registered political parties standing in elections to Senedd Cymru;

(c) maintain the platform by keeping the published information up-to-date;

(d) ensure, as far as reasonably practicable, that appropriate security measures are in place to protect the platform's electronic facilities and content from unauthorised access, interference, or use;

(e) deliver a system to check that election addresses and candidate statements, submitted to the platform for publication, comply with the relevant requirements prior to them being published on the platform.

Guidance

5.—(1) The platform operator must provide guidance about the operation of the platform.

(2) The guidance must include information about the following—

(a) the service provided by the platform and the mechanisms used to provide that service;

(b) the documents that electoral administrators may send to the platform operator for publication on the platform;

(c) the required format of any documents that are submitted to the platform operator;

(d) the means by which electoral administrators may publish information referred to in regulation 6 which would assist the platform operator to obtain and publish that information on the platform;

(e) how election addresses and candidate statements may be produced and sent to the platform operator.

(3) The guidance may include any other matter that will assist the platform operator in carrying out its functions in relation to the operation of the platform.

(4) The guidance must be published on the platform by the platform operator.

RHAN 3

GWYBODAETH A HYGYRCHEDD

Gwybodaeth i'w chyhoeddi ar y platfform

6.—(1) Rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi, neu drefnu cyhoeddi, y canlynol mewn perthynas â phob etholiad penodedig—

(a) hysbysiad o etholiad sy'n ofynnol gan (yn ôl y digwydd)—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**1**);

(ii) rheol 3 o Atodlen 1 i Reolau 2021;

(iii) rheol 3 o Atodlen 2 i Reolau 2021;

(b) datganiadau'r rhai a enwebwyd sy'n ofynnol gan (yn ôl y digwydd)—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**2**);

(ii) rheol 13 o Atodlen 1 i Reolau 2021;

(iii) rheol 13 o Atodlen 2 i Reolau 2021;

(c) hysbysiad y bleidlais sy'n ofynnol gan (yn ôl y digwydd)—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**3**);

(ii) rheol 27(1) o Atodlen 1 i Reolau 2021;

(iii) rheol 27(1) o Atodlen 2 i Reolau 2021;

(d) anerchiad etholiadol, yn unol â rheoliad 14;

(e) datganiad ymgeisydd, yn unol â rheoliad 14;

(f) hysbysiad o safle pob gorsaf bleidleisio a'r disgrifiad o bleidleiswyr sydd â hawlogaeth i bleidleisio yno, sy'n ofynnol gan (yn ôl y digwydd)—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**4**);

(ii) rheol 27(3) o Atodlen 1 i Reolau 2021;

(iii) rheol 27(3) o Atodlen 2 i Reolau 2021;

(**1**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y ddarpariaeth berthnasol yw rheol 3 o Atodlen 5 i O.S. 2007/236.

(**2**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y darpariaethau perthnasol yw rheolau 16 a 17 o Atodlen 5 i O.S. 2007/236.

(**3**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y ddarpariaeth berthnasol yw rheol 32 o Atodlen 5 i O.S. 2007/236.

(**4**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y ddarpariaeth berthnasol yw rheol 32(2) o Atodlen 5 i O.S. 2007/236.

PART 3

INFORMATION AND ACCESSIBILITY

Information to be published on the platform

6.—(1) The platform operator must publish, or arrange to be published, the following in relation to each specified election—

(a) notice of election required by (as the case may be)—

(i) an order made under section 13 of the 2006 Act(**1**);

(ii) rule 3 of Schedule 1 to the 2021 Rules;

(iii) rule 3 of Schedule 2 to the 2021 Rules;

(b) statements of those nominated required by (as the case may be)—

(i) an order made under section 13 of the 2006 Act(**2**);

(ii) rule 13 of Schedule 1 to the 2021 Rules;

(iii) rule 13 of Schedule 2 to the 2021 Rules;

(c) notice of poll required by (as the case may be)—

(i) an order made under section 13 of the 2006 Act(**3**);

(ii) rule 27(1) of Schedule 1 to the 2021 Rules;

(iii) rule 27(1) of Schedule 2 to the 2021 Rules;

(d) an election address, in accordance with regulation 14;

(e) a candidate statement, in accordance with regulation 14;

(f) notice of the situation of each polling station and the description of voters entitled to vote there required by (as the case may be)—

(i) an order made under section 13 of the 2006 Act(**4**);

(ii) rule 27(3) of Schedule 1 to the 2021 Rules;

(iii) rule 27(3) of Schedule 2 to the 2021 Rules;

(**1**) At the time that these Regulations were made, the relevant provision is rule 3 of Schedule 5 to S.I. 2007/236.

(**2**) At the time that these Regulations were made, the relevant provisions are rules 16 and 17 of Schedule 5 to S.I. 2007/236.

(**3**) At the time that these Regulations were made, the relevant provision is rule 32 of Schedule 5 to S.I. 2007/236.

(**4**) At the time that these Regulations were made, the relevant provision is rule 32(2) of Schedule 5 to S.I. 2007/236.

(g) trefniadau hygyrchedd sydd ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio;

(h) datganiad o'r canlyniadau sy'n ofynnol gan (yn ôl y digwydd)—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006(**1**);

(ii) rheol 60(3) neu 60W(3) o Atodlen 1 i Reolau 2021;

(iii) rheol 64(3) neu 64Z1(3) o Atodlen 2 i Reolau 2021.

(2) Caiff gweithredwr y platfform gyhoeddi, neu drefnu cyhoeddi, yr wybodaeth a ganlyn ar y platfform—

(a) gwybodaeth am y system etholiadol a'r broses bleidleisio mewn perthynas ag etholiadau penodedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i—

(i) datganoli etholiadau penodedig;

(ii) disgrifiad ac esboniad o'r gwahanol lefelau o lywodraeth sy'n bodoli yng Nghymru a'u cyfrifoldebau priodol;

(iii) y gwahanol etholiadau sy'n digwydd yng Nghymru a'r systemau pleidleisio a ddefnyddir ym mhob etholiad;

(b) gwybodaeth am drefniadau etholiadol a phrosesau etholiadol ar gyfer etholiadau penodedig gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i—

(i) cymhwysedd i bleidleisio;

(ii) cofrestru i bleidleisio, gan gynnwys cofrestru dienw a phleidleisio absennol;

(iii) y broses ymarferol o bleidleisio, gan gynnwys gwybodaeth am sut, pryd a ble i bleidleisio wrth bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, drwy'r post neu drwy ddirprwy;

(iv) hawliau hygyrchedd i bleidleiswyr wrth bleidleisio;

(v) manylion cyswllt ar gyfer timau etholiadol lleol sy'n rhoi cymorth i etholwyr ar gyfer pob ardal yng Nghymru;

(vi) manylion cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr etholedig ar gyfer pob etholaeth Senedd Cymru neu ward etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru;

(g) accessibility arrangements in place at polling stations;

(h) declaration of results required by (as the case may be)—

(i) an order made under section 13 of the 2006 Act(**1**);

(ii) rule 60(3) or 60W(3) of Schedule 1 to the 2021 Rules;

(iii) rule 64(3) or 64Z1(3) of Schedule 2 to the 2021 Rules.

(2) The platform operator may publish, or arrange to be published, the following information on the platform—

(a) information about the electoral system and voting process in relation to specified elections, including, but not limited to—

(i) the devolution of specified elections;

(ii) a description and explanation of the different levels of government that exist in Wales and their respective responsibilities;

(iii) the different elections that take place in Wales and the voting systems used at each election;

(b) information about electoral arrangements and electoral processes for specified elections including, but not limited to—

(i) eligibility to vote;

(ii) registering to vote, including anonymous registration, and absent voting;

(iii) the practical process of voting, including information on how, when and where to vote when voting at polling stations, by post or by proxy;

(iv) accessibility rights for voters when voting;

(v) contact details for local electoral teams which provide assistance to electors for each area in Wales;

(vi) contact details for elected representatives for each Senedd constituency or local government electoral ward in Wales;

(**1**) Ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn, y darpariaethau perthnasol yw rheolau 62 a 64 o Atodlen 5 i O.S. 2007/236.

(**1**) At the time that these Regulations were made, the relevant provisions are rules 62 and 64 of Schedule 5 to S.I. 2007/236.

(c) unrhyw wybodaeth arall am etholiadau penodedig y mae gweithredwr y platfform yn ystyried ei bod yn briodol.

(3) Caiff yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraffau (1) a (2) gynnwys—

(a) gwybodaeth ffeithiol a gynhyrchir gan weithredwr y platfform;

(b) dolenni neu gyfeiriadau at leoliadau perthnasol eraill ar y we.

Hygyrchedd gwybodaeth

7. Rhaid i weithredwr y platfform gymryd camau rhesymol i sicrhau—

(a) bod y platfform a'i gynnwys yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch i etholwyr, a

(b) bod yr wybodaeth a gyhoeddir ar y platfform yn chwiliadwy, pan fo'n berthnasol, yn ôl cod post, etholaeth Senedd Cymru neu ward etholiadol llywodraeth leol.

RHAN 4

ANERCHIADAU ETHOLIADOL A DATGANIADAU YMGEISWYR

Anerchiad etholiadol ar gyfer etholiadau Senedd Cymru

8.—(1) Yn ystod etholiad Senedd Cymru, caniateir cyflwyno anerchiad etholiadol i weithredwr y platfform gan—

(a) ymgeisydd unigol a luniodd yr anerchiad etholiadol neu y'i lluniwyd ar ei ran;

(b) asiant etholiad person o'r fath;

(c) plaid wleidyddol gofrestredig, sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth, a luniodd yr anerchiad etholiadol neu y'i lluniwyd ar ei rhan;

(d) asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig o'r fath.

(2) O ran anerchiad etholiadol—

(a) ni chaiff ond cynnwys materion sy'n ymwneud â'r etholiad,

(b) rhaid iddo gael ei gyflwyno i weithredwr y platfform fel y pennir yn yr hysbysiad o'r broses gyflwyno a gyhoeddir o dan reoliad 13, ac

(c) rhaid iddo gael ei gyflwyno gyda thystiolaeth o gymeradwyaeth derfynol gan y darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer y cyfathrebiad post.

(c) such other information about specified elections that the platform operator considers appropriate.

(3) The information mentioned in paragraphs (1) and (2) may include—

(a) factual information produced by the platform operator;

(b) links or signposts to other relevant web locations.

Information accessibility

7. The platform operator must take reasonable steps to ensure that—

(a) the platform and its content is user friendly and accessible for electors, and

(b) the information published on the platform is searchable, where relevant, by postcode, Senedd constituency or local government electoral ward.

PART 4

ELECTION ADDRESSES AND CANDIDATE STATEMENTS

Election address for Senedd Cymru elections

8.—(1) During a Senedd Cymru election, an election address may be submitted to the platform operator by—

(a) an individual candidate who prepared the election address or on whose behalf it was prepared;

(b) the election agent of such a person;

(c) a registered political party, which has submitted a list of candidates for a constituency, who prepared the election address or on whose behalf it was prepared;

(d) the election agent of such a registered political party.

(2) An election address must—

(a) contain only matter relating to the election,

(b) be submitted to the platform operator as specified in the notice of the submission process published under regulation 13, and

(c) be submitted with evidence of final approval by the universal service provider for the postal communication.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "darparwr gwasanaeth cyffredinol" ("*universal service provider*") yr un ystyr ag yn Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011(**1**);

ystyr "tystiolaeth o gymeradwyaeth derfynol" ("*evidence of final approval*") yw'r gymeradwyaeth a'r cod gwirio gwaith celf a anfonir oddi wrth y darparwr gwasanaeth cyffredinol at yr ymgeisydd neu i'r blaid wleidyddol gofrestredig.

9. Ni chaniateir i anerchiad etholiadol gynnwys unrhyw ddeunydd—

(a) sy'n anllad, yn dramgwyddus neu'n anweddus, neu

(b) y byddai ei gyhoeddi yn debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd.

Datganiad ymgeisydd ar gyfer etholiadau cyffredin prif gynghorau

10. Yn ystod etholiad cyffredin i brif gyngor yng Nghymru, caiff ymgeisydd, neu asiant ymgeisydd, anfon datganiad ymgeisydd at weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform.

11.—(1) O ran datganiad ymgeisydd—

(a) rhaid iddo fod yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn y ddwy iaith,

(b) rhaid iddo ddefnyddio sgript Times New Roman,

(c) ni chaiff fod yn fwy na 180 o eiriau, a

(d) rhaid iddo fod am yr ymgeisydd a'r rhesymau pam y mae'r ymgeisydd yn ceisio cael ei ethol.

(2) Rhaid i ddatganiad ymgeisydd gynnwys, heb gyfrif tuag at y terfyn geiriau—

(a) unrhyw ddisgrifiad sydd wedi ei gynnwys yn y papur enwebu o dan reol 5(3)(b) o Atodlen 1, neu reol 5(3)(b) o Atodlen 2, i Reolau 2021, a

(b) yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y datganiad o aelodaeth plaid sydd wedi ei gynnwys yn y papur enwebu o dan reol 5(3)(c) o Atodlen 1, neu reol 5(3)(c) o Atodlen 2, i Reolau 2021.

(3) Ni chaiff datganiad ymgeisydd (gan gynnwys unrhyw ffotograff o dan baragraff (4)) gynnwys unrhyw ddeunydd—

(a) sy'n anllad, yn dramgwyddus neu'n anweddus;

(b) y byddai ei gyhoeddi yn debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd;

(**1**) 2011 p. 5, gweler adran 65.

(3) In this regulation—

"evidence of final approval" ("*tystiolaeth o gymeradwyaeth derfynol*") means the approval and artwork checking code that is sent from the universal service provider to the candidate or registered political party.

"universal service provider" ("*darparwr gwasanaeth cyffredinol*") has the same meaning as in Part 3 of the Postal Services Act 2011(**1**).

9. An election address must not contain any material that—

(a) is obscene, offensive, or indecent, or

(b) the publication of which would likely amount to the commission of an offence.

Candidate statement for ordinary elections of principal councils

10. During an ordinary election to a principal council in Wales, a candidate, or candidate's agent, may send to the platform operator a candidate statement to be published on the platform.

11.—(1) A candidate statement must—

(a) be in Welsh, English or both languages,

(b) use Times New Roman script,

(c) be no more than 180 words, and

(d) be about the candidate and the reasons why the candidate is seeking election.

(2) A candidate statement must include, without counting towards the word limit—

(a) any description included in the nomination paper under rule 5(3)(b) of Schedule 1, or rule 5(3)(b) of Schedule 2, to the 2021 Rules, and

(b) the information contained in the statement of party membership included in the nomination paper under rule 5(3)(c) of Schedule 1, or rule 5(3)(c) of Schedule 2, to the 2021 Rules.

(3) A candidate statement (including any photograph under paragraph (4)) must not contain any material—

(a) that is obscene, offensive, or indecent;

(b) the publication of which would likely amount to the commission of an offence;

(**1**) 2011 c. 5, see section 65.

(c) sy'n gyfystyr â hysbysebu neu a allai arwain at fudd masnachol;

(d) a allai gamarwain neu ddrysu pleidleiswyr o ran y system etholiadol a ddefnyddir yn yr etholiad neu o ran effaith rhoi eu pleidlais.

(4) Caiff datganiad ymgeisydd gynnwys un ffotograff o'r ymgeisydd ac, os yw'n gwneud hynny—

(a) rhaid i'r ffotograff fod yn ddiweddar, a

(b) ni chaiff y ffotograff ddangos neb arall.

12. Rhaid cyflwyno datganiad ymgeisydd—

(a) i weithredwr y platfform fel y pennir yn yr hysbysiad o'r broses gyflwyno a gyhoeddir o dan reoliad 13;

(b) gyda datganiad gan yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd yn cadarnhau—

(i) bod y datganiad ymgeisydd wedi cael ei lunio gan yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd,

(ii) bod y datganiad ymgeisydd yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol, a

(iii) mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd yw'r wybodaeth yn y datganiad ymgeisydd.

Hysbysiad o'r broses gyflwyno

13.—(1) Ar gyfer pob etholiad penodedig, rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi ar y platfform hysbysiad o'r broses gyflwyno ar gyfer anerchiadau etholiadol neu ddatganiadau ymgeiswyr.

(2) Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad o'r broses gyflwyno ar y platfform cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r etholiad.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o'r broses gyflwyno gynnwys—

(a) dyddiad y diwrnod olaf y caniateir cyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar y platfform ("dyddiad cyflwyno"),

(b) y broses ar gyfer cyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd, gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch sut i anfon y ddogfen at weithredwr y platfform a'r fformat electronig sy'n ofynnol os caiff ei chyflwyno'n electronig, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae gweithredwr y platfform yn ystyried ei bod yn briodol er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr, eu hasiantau, a phleidiau gwleidyddol cofrestredig wrth gyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd.

(c) that amounts to advertising or could result in commercial gain;

(d) that could mislead or confuse electors as to the electoral system in use at the election or the effect of giving their vote.

(4) A candidate statement may include one photograph of the candidate and if it does so, the photograph must—

(a) be recent, and

(b) show no other person.

12. A candidate statement must be submitted—

(a) to the platform operator as specified in the notice of the submission process published under regulation 13;

(b) with a statement by the candidate or candidate's agent confirming that—

(i) the candidate statement has been prepared by the candidate or the candidate's agent,

(ii) the candidate statement complies with the relevant requirements, and

(iii) the information within the candidate statement is the responsibility of the candidate or the candidate's agent.

Notice of submission process

13.—(1) For each specified election, the platform operator must publish on the platform a notice of the submission process for election addresses or candidate statements.

(2) The notice of the submission process must be published on the platform as soon as reasonably practicable after the publication of notice of the election.

(3) The notice of the submission process must include—

(a) the date which is the last day on which an election address or candidate statement may be submitted for publication on the platform ("submission date"),

(b) the process for submitting an election address or candidate statement, including instructions about how to send the document to the platform operator and the electronic format required if submitted electronically, and

(c) any other information the platform operator considers appropriate to assist candidates, their agents, and registered political parties when submitting an election address or candidate statement.

Cyhoeddi anerchiadau etholiadol neu ddatganiadau ymgeiswyr

14.—(1) Rhaid i weithredwr y platfform gyhoeddi, neu drefnu cyhoeddi, ar y platfform, anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd—

(a) sy'n dod i law ar neu cyn y dyddiad cyflwyno, a

(b) sy'n cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

(2) Rhaid cyhoeddi'r anerchiad etholiadol neu'r datganiad ymgeisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo ddod i law gweithredwr y platfform a, beth bynnag, heb fod yn hwyrach na'r pedwerydd diwrnod cyn diwrnod y pôl.

(3) Mae'r diwrnodau a ganlyn i'w diystyru at ddibenion cyfrifo'r dyddiad cau y cyfeirir ato ym mharagraff (2)—

(a) dydd Sadwrn;

(b) dydd Sul;

(c) Noswyl Nadolig;

(d) Dydd Nadolig;

(e) Dydd Gwener y Groglith;

(f) diwrnod sy'nŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**);

(g) diwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch cyhoeddus neu alaru cyhoeddus.

Cyffredinol

15. Rhaid i weithredwr y platfform sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi cyflwyno anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd yn electronig neu ar ffurf copi caled.

Atebolrwydd am anerchiadau etholiadol a datganiadau ymgeiswyr

16.—(1) Nid yw unrhyw berson i fynd i unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol mewn cysylltiad â chyhoeddi cynnwys anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd ar y platfform, ac eithrio—

(a) yr ymgeiswyr neu'r ymgeisydd y mae'r anerchiad etholiadol neu'r datganiad ymgeisydd yn ymwneud â hwy neu ag ef, a

(b) yr asiant etholiad ar gyfer yr ymgeisydd neu ar gyfer y blaid wleidyddol gofrestredig, sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth, y mae'r anerchiad etholiadol neu'r datganiad ymgeisydd yn ymwneud ag ef neu â hi.

(**1**) 1971 p. 80.

Publication of election addresses or candidate statements

14.—(1) The platform operator must publish, or arrange to be published, on the platform, an election address or candidate statement that—

(a) is received on or before the submission date, and

(b) complies with the relevant requirements.

(2) The election address or candidate statement must be published as soon as reasonably practicable after it is received by the platform operator and, in any event, no later than the fourth day before the day of the poll.

(3) The following days are to be disregarded for the purposes of calculating the deadline referred to in paragraph (2)—

(a) a Saturday;

(b) a Sunday;

(c) Christmas Eve;

(d) Christmas Day;

(e) Good Friday;

(f) a day that is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(**1**);

(g) a day appointed for public thanksgiving or mourning.

General

15. The platform operator must ensure that arrangements are in place to enable an election address or candidate statement to be submitted electronically or in hardcopy.

Liability for election addresses and candidate statements

16.—(1) No person is to incur any civil or criminal liability in respect of the publication of the content of an election address or candidate statement on the platform, other than—

(a) the candidates or candidate to whom the election address or candidate statement relates, and

(b) the election agent for the candidate or for the registered political party, which has submitted a list of candidates for a constituency, to which the election address or candidate statement relates.

(**1**) 1971 c. 80.

RHAN 5

ADRODDIADAU

Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar swyddogaethau a arferir mewn perthynas â'r platfform

17.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob etholiad penodedig sy'n nodi sut y mae swyddogaethau a roddir i weithredwr y platfform gan y Rheoliadau hyn wedi cael eu harfer mewn perthynas â'r etholiad hwnnw.

(2) Rhaid cyhoeddi adroddiad o dan baragraff (1)—

(a) yn achos swyddogaethau a arferir mewn cysylltiad ag etholiad Senedd Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â diwrnod y pôl ar gyfer yr etholiad hwnnw;

(b) yn achos swyddogaethau a arferir mewn cysylltiad ag etholiadau cyffredin prif gynghorau, cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â diwrnod y pôl ar gyfer yr etholiadau hynny.

(3) Rhaid i adroddiad o dan baragraff (1) gynnwys, mewn perthynas â'r etholiad y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef—

(a) sut y mae gweithredwr y platfform wedi ymgysylltu â phartneriaid sy'n awdurdodau lleol, gweinyddwyr etholiadol a darparwyr gwybodaeth eraill wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r etholiad;

(b) crynodeb o'r wybodaeth sydd wedi ei chyhoeddi ar y platfform i gefnogi etholwyr i gymryd rhan yn yr etholiad penodedig;

(c) gwerthusiad o ran y defnydd o'r platfform, gan gynnwys i ba raddau y mae rhannau o'r platfform wedi cael eu cyrchu gan ddefnyddwyr;

(d) asesiad o gost gweithredu'r platfform, gan gynnwys costau cynnal a chadw.

18. Rhaid i weithredwr y platfform roi i Weinidogion Cymru unrhyw gymorth a gwybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â llunio adroddiad o dan reoliad 17(1).

19. Rhaid i adroddiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 17(1) gael ei osod gerbron Senedd Cymru.

PART 5

REPORTS

Reports by Welsh Ministers on functions exercised in relation to the platform

17.—(1) The Welsh Ministers must publish a report for each specified election that sets out how functions conferred on the platform operator by these Regulations have been exercised in relation to that election.

(2) A report under paragraph (1) must be published—

(a) in the case of functions exercised in respect of a Senedd Cymru election, before the end of the period of 12 months beginning with the day of the poll for that election;

(b) in the case of functions exercised in respect of ordinary elections of principal councils, before the end of the period of 12 months beginning with the day of the poll for those elections.

(3) A report under paragraph (1) must include, in relation to the election to which the report relates—

(a) how the platform operator has engaged with local authority partners, electoral administrators and other providers of information in exercising its functions in relation to the election;

(b) a summary of the information that has been published on the platform to support electors' participation in the specified election;

(c) an evaluation as to the usage of the platform, including the extent to which parts of the platform have been accessed by users;

(d) an assessment of the cost of operating the platform, including maintenance costs.

18. The platform operator must give the Welsh Ministers such assistance and information as the Welsh Ministers may reasonably require in connection with the preparation of a report under regulation 17(1).

19. A report published by the Welsh Ministers under regulation 17(1) must be laid before Senedd Cymru.

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
12 Mawrth 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
12 March 2025

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39672-0

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/331